Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 12fed o Ebrill 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 6.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Rob Jones, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby.
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Carol Watts

Cof 1 / Ebrill / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 2 / Ebrill / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/35294 Canopi siop newydd (yn lle'r hen un) ac arwydd newydd yn hongian, y ddau ynghlwm wrth ddrychiad blaen yr adeilad. Cais ôl-weithredol yn 60-60A Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/35395 Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer sied Bragdy, a adeiladwyd eisoes, ar dir ym Mragdy Evan Evans, 1, Stryd Rhosmaen
Sylw: Mae'r Cyngor yn dymuno derbyn eglurhad gan y Swyddog Cynllunio ar y canlynol. Mae'r Cyngor Tref o'r farn bod y cais gwreiddiol ar gyfer adeilad dros dro. Os felly, oni ddylid ei dynnu yn ôl a gwneud cais cynllunio llawn newydd? A ellir newid cais o statws dros dro i statws cynllunio llawn yn ôl-weithredol?

Cof 3 / Ebrill / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/34895 Amrywiol hysbysebion ac arwyddion yn Siop y Co-operative, Stryd Rhosmaen.
Sylw: RHODDWYD
E/34987 Hysbyseb yn 109, Stryd Rhosmaen.
Sylw: RHODDWYD

Cof 4/ Ebrill / 17 Doedd dim Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

Cof 5 / Ebrill / 17 Gohebiaeth

1. Sara Rees, Menter Bro Dinefwr, ynglŷn ag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau i ddefnyddio Neuadd y Sir ar yr 11eg a'r 12fed o Fai. Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod caniatâd yn cael ei roddi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace y dylid gofyn i'r Swyddog Technegol i agor Neuadd y Sir ar y dydd Iau, er mwyn i'r syrfewyr gael archwilio'r adeilad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Emma Davies, ynglŷn â derbyn y Prif Arolygydd Steve Thomas i annerch y Cyngor Tref ar y 26ain o Ebrill am 7.00yh. Nodwyd.

Cof 6 / Ebrill / 17 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Cyhoeddodd y Maer bod y Cyngor wedi arwyddo'r brydles 99 mlynedd i reoli Parc Penlan, gan gychwyn ar yr 31ain o Fawrth 2017. Hefyd, cyhoeddodd y Cyng. Jenkins bod y Cyngor wedi arwyddo'r Drwydded ar gyfer Parc Le Conquet. Byddai'r brydles ar gyfer Parc Le Conquet yn cael ei harwyddo unwaith fyddai'r Comisiynwyr Elusennau wedi cymeradwyo'r newid o CSG i ofal y Cyngor Tref. Yn y cyfamser, byddai'r Cyngor yn cwblhau unrhyw waith cynnal a chadw ym Mharc Le Conquet nes yr arwyddwyd y brydles.

Roedd cwmni yswiriant y Cyngor wedi cael gwybod bod angen cynyddu yswiriant y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn cyfrifoldebau.

Fe wnaeth yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau argymell bod y gwaith brys canlynol yn cael ei gwblhau ym Mharc Penlan:-

a) Bod y Cyngor yn rhoi contract tymor byr i Hugh Gwynne i gasglu sbwriel yn y parc unwaith yr wythnos, yn ogystal â chasglu unrhyw wydr sydd wedi torri. Hefyd, byddai'n rhoi gwybod i'r Swyddog Technegol am unrhyw beryglon gweladwy.
b) Peth o'r gwaith cynnal a chadw a nodwyd, h.y. clirio pridd a glaswellt o waelod rhai o'r rheiliau.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod yr adroddiad hwn yn cael ei dderbyn a'i argymell i'r Pwyllgor Cyllid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Cafwyd cais gan y Maer y dylai'r CCB Ailddechreuedig roi ystyriaeth i ffurfio grwpiau i helpu gydag archwiliadau Parc Penlan a Pharc Le Conquet

Cof 7 / Ebrill / 17 Doedd dim Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Cof 8/ Ebrill / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cyng. Rebecca Butcher bod y rheilen uchaf ar y sglefrfwrdd ym Mharc Le Conquet yn rhydd.

Cafwyd cais gan y Cyng. Geraint Price am i ddyfodol Gardd Heol Cilgant i gael ei drafod yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 26ain o Ebrill. Derbyniwyd hyn.

Cof 9 / Ebrill / 17 Cyfarfodydd Nesaf

Cytunwyd i argymell y cyfarfodydd canlynol i'r Cyngor Llawn:-

10fed o Fai Cyfarfod Blynyddol a CCB Ailddechreuedig
24ain o Fai Cyngor Llawn
27ain o Fai Cinio'r Maer a Throsglwyddo'r Awenau
14eg o Fehefin Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Cyllid
28ain o Fehefin Cyngor Llawn

Cof 9A / Ebrill / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Diolchodd y Cyng. Eifion Davies i'r Cyng. Julia Jones am Gadeirio'r Pwyllgor Cynllunio a'i gwasanaeth ar y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh.